

Cyngor Cymuned **Llanidan** Community  
Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth, 31/7/2018 am 6.30y.h..

*Minutes of meeting held Tuesday Evening, 31/7/2018 at 6.30pm.*

**Presennol / Present:** Ms Sandra Thomas (Cadeirydd 'Dros Dro' / 'Temporary Chairperson') **ST**, Mr Mark Evans **MEE**, Mr Steven A Jones **SAJ**, Cynghorydd Mr Eric W. Jones (CSYM) **EWJ**, Cynghorydd Mr Dafydd Roberts, (CSYM) **DR**, Mrs Lynn Hervouet (Clerc/Clerk) **LH**.

**Ymddiheuriadau / Apologies:** Mr Cenwyn Williams **CW**.

**1. Croeso / Welcome**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan **ST** ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.

*The meeting was chaired by **ST** and all present were welcomed.*

**2. Datgan Diddordeb / Declaration of Interest**

Datganwyd diddordeb gan **SAJ / EWJ** ar gyfer cais cynllunio:

37C187A - Plot gerllaw Bryn Garth, Brynsiencyn. Gadawodd y ddau aelod yr ystafell tra roedd y mater yn cael ei drafod.

**SAJ / EWJ** declared an interest for a planning application:

*37C187A - Plot adjacent to Bryn Garth, Brynsiencyn. Both members left the room while the issue was being discussed.*

**3. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd / Elect Chairperson and Vice-chairperson**

Penderfynwyd i adael hwn tan y cyfarfod nesaf yn mis Medi, oherwydd bydd gennym fwy o aelodau newydd i ddewis adeg hynny. / *It was decided to leave this until the next meeting in September, as we will have more new members to choose from.*

**4. Aelodau Newydd – Enwebiad / New Members – Nominations**

Darllenwyd yr epost gawsom gan **EWJ**. Darllenwyd y llythyr gawsom gan Kirsty Campbell **KLC**. Mae **EWJ** a **KLC** y ddau wedi cael eu derbyn ar y Cyngor Cymuned Llanidan. / *The email we received from **EWJ** was read out. The letter we received from Kirsty Campbell **KLC** was read out. Both **EWJ** and **KLC** have been accepted on the Llanidan Community Council.*

**5. Ymddiswyddiad aelod / Member's resignation**

Darllenwyd llythyr gawsom gan **AT** a phenderfynwyd derbyn ei ymddiswyddiad. **LH** i ysgrifennu llythyr o ddiolch i **AT**. / *The letter we received from **AT** was read and it was decided to accept his resignation. **LH** To write a letter of thanks to **AT**.*

**6. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf 29/05/18 ag 10/07/18. / Minutes of last meeting 29/05/18 and 10/07/2018.**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir 29/5/18, Cynigwyd gan **ST**, Eiliwyd gan **CW**.  
 Derbyniwyd y cofnodion yn gywir 10/7/18, Cynigwyd gan **ST**, Eiliwyd gan **MEE**.  
*The minutes were confirmed correct 29/5/18, Proposed by **ST**, Seconded by **CW**.*  
*The minutes were confirmed correct 10/7/18, Proposed by **ST**, Seconded by **MEE**.*

**7. Cyngor Cymuned - Balans yn y banc ar 01/07/2018. / Community Council Bank balance on 01/07/2018.**

Cyfrif Cyfredol "Community" (ar 01/07/2018)	-	<b>£ 7,412.33</b>
Cynilo "BMM" (ar 22/06/2018)	-	<b>£ 4,047.41</b>
	=	<b>£11,459.74</b>

**Y Ganolfan - Balans yn y banc ar 25/6/2018 / Y Ganolfan Bank balance on 25/6/2018**

Cyfrif "Community" (ar 27/07/2018)	-	<b>£ 1,246.55</b>
Cynilo "BMM" (ar 27/07/2018)	-	<b>£ 4,406.19</b>
Float Account (ar 27/07/2018)	-	<b>£ 249.41</b>
	=	<b>£ 5,902.15</b>

**8.Cyllid / Finance**

**8.1 Biliau sydd wedi ei dalu / Bills that have been paid**

£40.39 - I **LH** am adnoddau swyddfa a postio llythyrau. / *To **LH** for office resources and posting letters.*

£400.00 - Eglwys Llanidan yn gofyn am cyfraniad ariannol tuag at cynnal a chadw'r fynwent am y flwyddyn 2018/19. / *Llanidan Church requesting a financial contribution towards the maintenance of the churchyard for the year 2018/19.*

£288.00 - Huw Frazer Owen am torri gwrychoedd yn cae chwarae a cae peldroed Brynsiencyn. / *For hedge cutting in Brynsiencyn playing field and football field.*

£137.67 - TWE / PAYE (HMRC)

**8.2 Biliau iw Dalu / Bills for Payment**

£178.80 - Llyfr cofnodion "Minute Book" newydd gan Shaw & Sons Limited.

£149.00 & TAW = **£178.80**. / *New "Minute Book" from Shaw & Sons Limited.*

£149.00 & VAT = **£178.80**.

£77.00 - Aelodaeth Society of Local Council Clerks (S.L.C.C.). / *Society of Local Council Clerks (S.L.C.C.) Membership.*

£100.00 - Mr A Foulkes (Archwilydd mewnol) - Gwaith am archwilio cyfrifon a dogfennau a paratoi adroddiad ar gyfer Archwiliad Allanol a Ffurflen Blynyddol y Cyngor am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2018. / *Mr A Foulkes (Internal auditor) -*

*Work for auditing accounts and documents and preparing a report for the Council's External Audit & Annual Return for the period up to 31 March 2018.*  
£548.00 - Cyflog y clerc **LH** am mis Ebrill i mis Mehefin 2018. / *Clerk's wages **LH** for April to June 2018.*

£96.60 - ROSPA Archwiliad blynyddol 2018. / *ROSPA's Annual inspection 2018.*

£0.50 - I **LH** am argraffu llun o hysbysiad o cyfrifon i etholwyr yn ffenest Y Ganolfan i BDO. / *To **LH** for printing a photograph of the notification of accounts to electors in Y Ganolfan's window for BDO.*

£7.30 - I **LH** am yrru ffurflenni i BDO (archwilydd allanol) trwy Royal Mail Special Delivery 12/7/2018. / *To **LH** for sending forms to BDO (external auditor) via Royal Mail Special Delivery 12/7/2018.*

£3.48 - I **LH** prynu 6 x stampiau ail dosbarth. / *To **LH** bought 6 x second class stamps.*

£18.99 - I **LH** prynu inc du gan 999inks. / *To **LH** bought black ink from 999inks.*

£1.00 - I **LH** prynu ffeil arch lever A4. / *To **LH** bought A4 lever arch file.*

Talwyd y biliau uchod. / *Above payments were paid.*

Cynigwyd gan **ST**, Eiliwyd gan **MEE**. / *Proposed by **ST**, Seconded by **MEE**.*

### 8.3 Angen talu y bil yma ar ôl archwiliad o'r gwaith

£400.00 - Dylan Owen am cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus yn ardal Llanidan.  
/ *For maintaining public footpaths in Llanidan area.*

### 8.4 Taliadau wedi Derbynn / *Payments Received*

£293.97 - Ad-daliad gan Y Ganolfan am yswiriant adeilad gan Zurich. /  
*Reimbursement from Y Ganolfan for building insurance from Zurich.*

\*£62.07 - Taliad 'Wayleave' gan Scottish Power / 'Wayleave' payment from  
Scottish Power.

\***LH** yn son ei bod hi wedi talu y siec 'Wayleave' i fewn i banc cyfrif CMM yn lle BMM.  
Bydd angen cywiro hwn cyn cyfarfod mis Medi. / *\***LH** says she has paid the Wayleave  
cheque into a CMM account bank instead of BMM. This will need to be corrected  
before the September meeting.*

## 9. Materion yn codi o'r cofnodion / *Matters arising from the minutes*

9.0.1 Ffurflenni Cofrestr Buddiannau – Diweddarau, ffurflen gan **MEE** iw ddod. **SAJ**  
ac **EWJ** wedi derbyn ffurflen hon.

*Benefits Register Forms – Update, **MEE** is still outstanding. **SAJ** and **EWJ** have  
received this form.*

9.0.2 Cae Chwarae - Adroddiad gan RoSPA / Asesiad Risg

Trafod adroddiad ROSPA 2018. / *Discuss ROSPA's 2018 report.*

Mae multiplay sydd yn y cae chwarae yn risg uchel ag angen ei dynnu i lawr.  
Mae'n debyg y bydd hyn yn digwydd rwan ar ôl i'r plant ddychwelyd yn nôl  
i'r ysgol yn mis Medi. Bydd **MEE** yn galw i fewn i swyddfa G L Jones ym

Methesda gyda chaniatad y Cadeirydd (drost dro) i brynu y cadwyni ar 'shackles' (hyd at £300) er mwyn i ni cael ailosod y rhain yn cae chwarae ar unwaith. Bydd rhaid i ni edrych am grantiau i'n helpu i brynu offer newydd. *Multiplay in the playing field is a high risk that needs to be removed. This will probably happen now after the children return back to school in September. MEE will call into G L Jones office in Bethesda with the approval of (temporary) Chairperson to buy replacement chains and shackles (up to £300) so that we can immediately replace these in the playground. We will have to look for grants to help us buy new equipment.*

- 9.0.3 Cae Pêl Droed Maes Chwarae - Rhwydi goliau / *Playground Football Field - Goals netting*  
Mae **MEE** wedi dod o hyd i gwmni sydd hefo 'anti climbframe'. Mae **MEE** yn disgwyl i'r cwmni yma ddod yn ôl ato. Mae'n debyg bydd rhaid i ni gosod hwn ein hunain yn y cae peldroed.  
*MEE has found a company with anti climbframe. MEE is waiting for this company to come back to him. We will probably have to put this up ourselves in the football field.*
- 9.0.4 Cynllun Gweithredu Brynsiencyn Action Plan.  
Mae **CD** a person arall yn y pentre wedi bod yn brysur yn paentio cwt Scottish Power yn Tyn Cwrt. Penderfynwyd gadael hwn ar yr agenda tan cyfarfod mis Medi.  
*CD and another person in the village have been busy painting Scottish Power's hut in Tyn Cwrt. It was decided to leave this on the agenda until September's meeting.*
- 9.0.5. Archwiliad Cyfrifon y Cyngor 2017/2018 BDO. / *Council Accounts Audit 2017/2018 BDO.*  
Heb glywed ganddynt. / *Not heard from them.*
- 9.0.6 Cynrychiolwydd Cyngor Cymuned Llanidan ar fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Brynsiencyn. / *Representative of Llanidan Community Council on board of Governors in Ysgol Brynsiencyn.*  
Penderfynwyd gadael hwn tan cyfarfod mis Medi, er mwyn i ni cael dewis aelod arall i gynrychioli'r Cyngor Cymuned.  
*It was decided to leave this until September's meeting, so that we can choose another member to represent the Community Council.*
- 9.0.7 Rhwystrau ar llwybrau cyhoeddus Rhif 1 (Blochdy, Lôn Las hyd at fferm Cefn Dderwen, Halen Môn hyd at Tai Cochion a Rhif 14 (Tŷ Mawr).  
Darllenwyd yr ebost roeddem wedi ei dderbyn ynglyn a llwybrau uchod. Llwybr 37/009/1 Caer Leb i Castell Bryn Gwyn. Darllenwyd yr ebost roeddem wedi ei dderbyn. Roedd rhai o'r Cynghorwyr yn anghytuno bod y llwybr cyfan yn rhan o ardal Llanidan. Pa rhan ohono sy'n perthyn i ardal Rhosyr?  
**LH** i gysylltu â'r adran i ofyn am gadarnhad o lwybrau ar restr Llanidan. Efalla

gofyn am fap diweddar o'r llwybrau cyhoeddus gyda'r rhifau o yr ardal yma?  
Nid yw'r llwybr yma ar restr torri llwybrau cyhoeddus blynyddol ardal  
Llanidan.

*The email that we received was read about the paths above. Footpath  
37/009/1 Caer Leb to Castell Bryn Gwyn. The email that we received was  
read. Some Councillors disagreed that the whole route was part of the  
Llanidan area. Which part of it belongs to the Rhosyr area? LH to contact the  
department to request confirmation of routes on the Llanidan list. Maybe  
ask for a recent map of public footpaths with the numbers for this area? This  
route is not on the Llanidan area annual public footpath list.*

9.0.8 Banc papur ailgylchu / Paper recycling bank

Darllenwyd yr ebost roeddem wedi ei dderbyn. Mae Cynghorwyr yn cwyno  
bod y banciau poteli yn aml yn llawn ac mae angen eu gwagio yn fwy  
rheolaidd. LH i gysylltu â'r adran gwastraff eto.

*The email that we received was read. Councillors are complaining that the  
bottle banks are full and in need to be emptied on a regularly basis. LH is to  
contact the waste department again.*

9.0.9 Cadw'r dogfennau sy'n ofynnol ar gyfer archwilio cynghorau plwyf. /  
Retention of documents required for the audit of parish councils.

Mae LH am gadw hwn mewn ffeil er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol.

*LH to keep this in file for future reference.*

9.1.0 Angen clo ar gyfer y cabinet mawr. / Need a lock for the big cabinet.

Mae'r clo ar gyfer cabinet mawr ar goll felly, rydym angen prynu clo newydd.  
SAJ i holi os oes yna cabinet ail law ar gael?

*The lock for large cabinet is missing, therefore we need to buy a new lock.*

*SAJ to enquire if there is a second hand cabinet available?*

9.1.1 Contract y Clerc. / Clerk's contract.

Llofnodwyd y contract gan y Cadeirydd drost dro a'r Clerc.

*The contract was signed by the temporary Chairperson and by the Clerk.*

9.1.2 Cytundeb Cyflog Cenedlaethol gan Gymdeithas Genedlaethol Cynghorau  
Lleol - Y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol  
(NCJ) - Graddfeydd cyflog newydd ar gyfer 2018/2019 a 2019/2020. /

*National Pay Agreement by National Association of Local Councils (NALC) -*

*The National Joint Council for Local Government Services (NCJ) - New pay  
scales for 2018/2019 and 2019/2020.*

Nid oes angen sylw. / No need to take action.

9.1.3 Wedi derbyn llythyr gan: National Grid, Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru:  
cwblhau ein cynlluniau. / Received a letter from National Grid, North Wales  
Connection Project: finalising our proposals.

Nid oes angen sylw. / *No need to take action.*

- 9.1.4 Wedi derbyn llythyr o ddiolch gan Mrs Nia Hall, Llywodraethwr Ysgol Brynsiencyn. Bydd yr ysgol yn dechrau gyda prosiect gyda'r Gymuned i Ddathlu Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yn mis Medi.

*We have received a letter of thanks from Mrs Nia Hall, Governor of Brynsiencyn School. The school will start with a community project to celebrate the Centenary of the First World War in September.*

Darllenwyd y llythyr. / *The letter was read.*

- 9.1.5 Hoffai **LH** cael cymorth gyda thaliadau HMRC e.e. taliadau TWE chwarterol, cyfrif ar-lein. Efallai cyflogi cyfrifydd i gynorthwyo / talu'r biliau yma? / **LH** would like assistance with HMRC payments ie. Quartely PAYE payments, online account. Maybe employ an accountant to assist / pay these bills? Efallai defnyddio meddalwedd "Basic Pay"? Neu efallai cysylltu gyda Cyngor Cymuned arall i ofyn pwy sy'n gwneud eu TWE nhw? Maybe try and use "Basic Pay" software? Or contact another Community Council to ask who does their PAYE?

- 9.1.6 Angen diweddarau gwefan Cyngor Cymuned. / *Need to update the Community Council's website.*  
Diweddarau y gwefan yn mis Medi gyda enwau yr aelodau newydd.  
*Update the website in September with the names of the new members.*

- 9.1.7 Taliadau i Aelodau Cyngor Tref / Cymuned ar gyfer 2016/17. / *Payments to Members of Town / Community Council for 2016/17.*  
Ni wnaed unrhyw daliadau - **LH** i ebostio y ffurflen yn dól.  
*No payments were made - LH to email the form back.*

- 9.1.8 Y Ganolfan angen prynu byrddau newydd. / *Y Ganolfan need to buy new tables.*  
Darllenwyd yr ebost. / *The email was read.*  
Angen ysgrifennu ebost mewn ymateb i ofyn a fyddant yn gallu hawlio cyfanswm TAW yn ôl?  
*Need to write an email in response to ask if they will be able to claim VAT total back?*

## **10. Cynllunio / Planning**

### **10.1 Ceisiadau / Applications**

**37C115C/ENF - Cae'r Leb, Brynsiencyn**, Cais ôl-weithredol ar gyfer ymestyn y cwrtail a cadw ty haul ynghyd a chodi modurdy / sied gardd newydd. / *Retrospective application for an extension to the curtilage and the summerhouse together with the erection of a new garage / garden shed.*

**37C187A - Plot gerllaw Bryn Garth, Brynsiencyn**, Cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd a gwella mynediad presennol a gosod system trin carthffosiaeth yn Plot

Gerllaw Bryn Garth, Brynsiencyn. / *Full application for the erection of a dwelling together with improving current access and installation of septic tank at Plot Adjacent Bryn Garth, Brynsiencyn.*

**37C204/ENF - Druid House, 1 Mona Terrace, High Street, Brynsiencyn,** Cais ôl-weithredol ar gyfer gwaith altro ac ehangu ynghyd â chodi teras ar to. / *Retrospective application for alterations and extensions together with the construction of a roof terrace.*

**37C115D/ENF - Cae'r Leb, Brynsiencyn,** Cais ôl-weithredol ar gyfer codi sied amaethyddol a creu trac gwyneb caled yn Cae'r Leb, Brynsiencyn. / *Retrospective planning application for the erection of an agricultural shed and a hardcore track at Cae'r Leb, Brynsiencyn.*

#### 10.2 Penderfyniadau / *Decisions*

**37C115C/ENF - Cae'r Leb, Brynsiencyn,** - Dim gwrthwynebiad. / *No objection.*

**37C187A - Plot gerllaw Bryn Garth, Brynsiencyn,** - Cefnogi y cais. / *Support the application.*

**37C204/ENF - Druid House, 1 Mona Terrace, High Street, Brynsiencyn,** - Dim sylw. / *No comment.*

**37D115D/ENF - Cae'r Leb, Brynsiencyn,** - Dim gwrthwynebiad. / *No objection.*

#### **11. Gohebiaethau / Correspondence**

11.1 Rhestrwyd gohebiaeth yn llawn yn agenda'r cyfarfod. / *Correspondence received was listed in full in the meeting's agenda.*

11.2 Adroddiad Cyngorydd Eric Jones / *Councillor Eric Jones Report*

Roedd eisiau adrodd ei fod yn cefnogi cynllun Gweithredu Brynsiencyn er mwyn i ni allu tacluso'r y pentref. / *Wanted to report that he supports the Brynsiencyn Action plan so we can tidy up the village.*

Adroddiad Cyngorydd Dafydd Roberts / *Councillor Dafydd Roberts Report*

Dim yw adrodd. / *No report.*

#### **12. Unrhyw Fater Arall (gyda chaniatad y Cadeirydd) / Any Other Business (with permission from the Chairperson)**

12.1 Grant Chwarae Cymunedol / *Community Play Grant*

I trio ceisio am grant Watkin Jones yn mis Medi fel cyfraniad tuag at prynu offer newydd i cae chwarae. I'w drafod eto yn ystod cyfarfod mis Medi.

*To try and apply for the Watkin Jones grant in September as a contribution to the purchase of new playground equipment. To be discussed again during September's meeting.*

#### **13. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

13.1 Nos Fawrth, 25/09/2018 am 6.30y.h. o'r gloch yn 'Y Ganolfan'.

*Tuesday Evening, 25/09/2018 at 6.30pm o'clock at 'Y Ganolfan'.*

13.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clwyd y cyfarfod am 8.35y.h.

*The Chairperson thanked members for attending the meeting. Meeting closed at 8.35pm.*

**Arwyddwyd – Cadeirydd / Signed – Chairperson**

---

**Dyddiad / Date:**